

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Dementia

Cofnodion: Cyfarfod mis Chwefror 2017



Y Pierhead

12.30pm – 1.25pm, dydd Mercher 8 Chwefror 2017

Cadeirydd: Lynne Neagle AC

Pwnc trafod: Cynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar Dementia

Yn bresennol

Lynne Neagle AC (Cadeirydd); Vaughan Gething AC; Angela Burns AC; Huw Irranca-Davies AC; Craig Lawton (ar ran Suzy Davies AC).

Dr Sarah Watkins a Matthew Morris (Llywodraeth Cymru); Siân Thomas a Stephen Boyce (y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon); Sue Phelps, Morgan Griffith-David, Helen Payton (Cymdeithas Alzheimer Cymru - ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol); Dr Caroline Walters a Natalie Elliott (Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd); Rosie Raison (Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru); Ross Gregory (y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru); Siobhan Conway (Coleg Brenhinol y Seiciatryddion); Clair Houston (Gofal a Thrwsio Cymru); Allison Hulmes (BASW Cymru), Rachael Litherland (DEEP).

Elizabeth Williams, Robert Williams, Linda Willis, Adele Morgan, Ceri Higgins, Chris Roberts, Jayne Goodrick, Nigel Hullah (pobl y mae dementia'n effeithio arnynt / gofalwyr / gwirfoddolwyr).

Croeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau

- Croesawodd Lynne Neagle AC bawb i'r cyfarfod.
- Ymddiheuriadau: Mark Isherwood AM, Neil Hamilton AM
- Etholwyd Cymdeithas Alzheimer Cymru fel ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol
- Mabwysiadwyd y cylch gwaith arfaethedig heb ei ddiwygio

Cyflwyniad ar Strategaeth Llywodraeth Cymru ar Dementia

Gwnaeth Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Lles a Chwaraeon, gyflwyniad ar Gynllun Gweithredu Strategol drafft Cymru ar Dementia. Dywedodd ei bod yn bwysig bod yn uchelgeisiol a realistig o ran y cynllun, a bod angen ymdopi â heriau heddiw ac yfory. Roedd yn cydnabod bod angen edrych ar yr unigolyn yn y cyd-destun cyfan. Mae proses wrando wedi cael ei chynnal drwy gydol y gwaith o ddrafftio'r Strategaeth Dementia, gan ymgysylltu â phobl y mae dementia yn effeithio arnynt a gwranddo arnynt – a'i fod yn gobeithio y byddai'r rhai oedd yn bresennol yn cydnabod eu lleisiau yn y drafft sydd wedi cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad.

Yna cymerwyd cwestiynau o'r llawr ac fe'u hatebwyd gan Vaughan mewn grwpiau.

- Gofynnodd Nigel Hullah a Chris Roberts am y **Grŵp Sicrhau Darpariaeth ar gyfer Pobl Hŷn** ac a fyddai pobl y mae dementia yn effeithio arnynt yn cael eu gwahodd fel aelodau i fonitro'r broses o weithredu'r Strategaeth. Dywedodd Vaughan "*byddai'n ddefnyddiol i gael lleisiau'r bobl y mae dementia yn effeithio arnynt o amgylch y bwrdd*".
- Gofynnodd Adele Morgan a Jayne Goodrick a fyddai **fersiwn hawdd ei ddarllen neu fersiwn fwy hygyrch** o'r ddogfen yn cael ei chynhyrchu, ar ffurf ac mewn geiriau symlach. Dywedodd Vaughan ei bod yn bwysig bod yr ymgynghoriad yn cyfleu'r wybodaeth a'r

manylder sy'n angenrheidiol i weithwyr iechyd proffesiynol a dinasyddion – mae'n anodd cyfuno hyn, ond roedd yn derbyn y gallai crynodeb haws ei darllen fod yn fuddiol. Mae rhai hefyd wedi gofyn yn glir am fanylion technegol yn y ddogfen. Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bwysig nad yw pobl ofn dweud "dydw i ddim yn deall hyn". Dywedodd y byddent yn ceisio llunio crynodeb o'r hyn y gall pobl ei ddisgwyl gan iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol gyda dinasyddion.

- Gofynnodd Linda Willis am y posibilrwydd o **hunangyfeirio** i'r Gymdeithas Alzheimer neu glinigau cof, gan osgoi'r angen am feddyg teulu gan fod rhai pobl ofn mynd at feddyg teulu neu heb gael profiad da. Dywedodd Vaughan ei bod yn bwysig gwneud yn siŵr bod pobl yn cael cymorth yn y lle cywir. Os ydym am wella cyfraddau diagnosis, bydd angen gwneud hyn drwy gyfraniad gan rywun o faes meddygol. Roedd yn cydnabod pryderon, ond bod hynny'n bwydo i mewn i hyfforddiant a dealltwriaeth. Rydym yn disgwyl i feddygon teulu fod yn gyffredinolwyr arbenigol, ond mae newid diwylliant yn bwysig. Byddem yn disgwyl i weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol ddeall profiad unigolyn o ddementia. Nid yw'n anarferol i ddinasyddion fod yn arbenigwyr ar eu cyflyrau, ond mae angen i berson cymwys wrando ar eu hofnau a'u gobeithion. Mae hyfforddiant a gwybodaeth yn allweddol i hyn fel bod mynediad ar gael i bawb yn gyffredinol.
- Nododd Dr Caroline Walters o RCSLT nad oedd fawr o gyfeiriad yn y strategaeth at anhawster o ran cyfathrebu, llyncu a bwyta, a gofynnodd sut y byddai'r strategaeth yn mynd i'r afael â hyn. Mae cyfathrebu yn allweddol hefyd i bobl â dementia, sy'n aml angen cymorth. Dywedodd Ceri Higgins nad ydym yn disgwyl i feddygon teulu fod yn arbenigwyr, ond iddynt gael gwybodaeth sylfaenol o leiaf. Gofynnodd Angela Burns AC am y posibilrwydd o adolygu **hyfforddiant** meddygon. Bellach mae gennym ddealltwriaeth anodd o'r hyn sy'n ein gwneud yn sâl, ac mae gennym flaenoriaethau gwahanol – nid ydym yn byw'n hwy, ond rydym eisiau byw'n dda. A oes bwriad i adolygu hyfforddiant a phwy fyddai'n cyfrannu at hyn? Dywedodd Rosie Raison o'r Coleg Nyrsio Brenhinol fod hyfforddiant yn bwysig i bob gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol yn ogystal ag i feddygon teulu. Mae nifer yr achosion o ddementia mewn cymdeithas yn golygu y bydd pawb yn y sector yn adnabod rhywun y mae dementia yn effeithio arnynt. Mae angen cynnal adolygiad o'r hyfforddiant a sicrhau mynediad i'r hyfforddiant hwnnw. Hynny yw, mae angen rhoi amser i nyrsys wella eu sgiliau, hyfforddi a dysgu am y maes hwn. Mae'n hanfodol bod pobl yn cael y gofal cywir ar y lefel gywir. Roedd Vaughan yn derbyn bod angen gwella dealltwriaeth a hyfforddiant pobl. Holwyd beth rydym yn disgwyl i bobl ddysgu o addysg (fel prifysgol) a beth rydym yn disgwyl iddynt ei ddysgu yn ystod eu bywyd proffesiynol. Lanswyd y *Fframwaith Gwaith Da* yn ddiweddar, ac mae angen nodi arfer da a herio gweithwyr proffesiynol i godi a datblygu'r safon, a bod llai a llai o bobl yn cael problemau. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd pobl bob amser yn gwneud camgymeriadau.
- Dywedodd Linda ei bod yn bwysig i **ofalwyr** gael eu cymorth a'u hyfforddiant eu hunain. Nododd Vaughan fod y gyfraith wedi newid yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i roi asesiad i bob gofalwr, a bod angen ymgorffori hyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn.
- Dywedodd Chris nad oedd llawer o sôn am **gymorth neu eiriolaeth i gymheiriaid**, a bod angen i'r strategaeth sôn mwy am yr hawliau y gall pobl eu cael. Dywedodd Vaughan fod pwysigrwydd siarad â phobl sy'n deall, rhoi'r cyfle i bobl sy'n byw â dementia i siarad â'i gilydd a rhoi'r cyfle i ofalwyr siarad â'i gilydd yn faterion a gododd yn aml yn ystod y cyfnod ymgynghori. Pan ymwelodd â [Tŷ Hapus](#), sef canolfan ddydd yn y Barri sy'n cael ei rhedeg gan Tŷ Hapus a'r Gymdeithas Alzheimer, gwelodd pa mor bwysig yw hi i bobl gael rhywle i fynd i fwynhau eu hunain.

- Dywedodd Jayne fod **gofal lliniarol** yn dechrau'n gynharach na diwedd oes er mwyn deall beth yw dymuniadau person â dementia, a hynny oherwydd bod dementia yn aml yn ei gwneud yn amhosibl cael y sgwrs honno'n hwyrach. Nes bod rhywun yn cael diagnosis, ni fyddant yn gwybod pa sgysiau y mae angen iddynt eu cael. Mae diffyg diagnosis a dealltwriaeth hefyd yn rhoi pwysau ar deuluoedd. Os byddwch yn gwneud pethau'n iawn, gallwch arbed arian drwy gymorth cynharach a helpu pobl i fyw eu bywydau. Mae cynnydd o 3 y cant mewn **cyfradd ddiagnosis** mor fach. Beth am y gweddill? Roedd cytundeb cyffredinol yn yr ystafell nad yw 3 y cant yn ddigonol. Dywedodd Adele y dylai diagnosis godi gyda chefnogaeth meddygon teulu - ni fyddai cyfradd ddiagnosis o 50 y cant yn dderbyniol yn achos canser, felly ni ddylai fod yn dderbyniol yn achos dementia. O ran gofal lliniarol, nododd Vaughan fod hyn yn her drwyddi draw. Mae'n anodd cael y sgysiau hyn, ond mae'n bwysig eu bod yn digwydd yn gynharach. Dywedodd fod y Llywodraeth yn bwriadu adnewyddu'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Gofal Diwedd Oes. Mae'n bwysig o ran ein helpu i beidio â gorfod dyfalu beth yw dymuniadau pobl, ac mae'n rhaid i ni hyrwyddo hyn fel sgwrs arferol. Mae yna adran am hyn yn y Cynllun Gweithredu Strategol drafft ar gyfer Dementia, a bydd yn bwydo i mewn i ddarpariaeth yn y dyfodol. O ran y mater o darged ar gyfer cynnydd o 3 y cant mewn cyfraddau diagnosis, nododd Vaughan fod cadeirydd y grŵp trawsbleidiol (Lynne Neagle AC) wedi datgan yn glir yn y Siambr bod yn rhaid i'r targed fod yn uchelgeisiol. Nododd nad ydym wedi gallu sicrhau cynnydd o 3 y cant o flwyddyn i flwyddyn yn y gorffennol, felly byddai'r targed hwn yn fwy nag erioed o'r blaen. Bydd yna gynnydd yn y gyfradd ddiagnosis a bydd angen cymorth yn hyn o beth er mwyn grymuso pobl i wneud dewisiadau.
- Dywedodd Chris y dylid **codi ymwybyddiaeth** mewn ysgolion, gan fod ofn a chamsyniad yn dechrau'n gynnar – dim ond 45 yw'r cwrs Cyfeillion Dementia ac yn ardderchog. Nodwyd bod y Gymdeithas Alzheimer wedi creu adnoddau ar gyfer ysgolion.¹
- Gorffennodd Vaughan drwy ddweud ei fod yn gobeithio ei fod wedi dweud beth y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud nawr, ac y byddai'n hapus i ddod yn ôl i wrando eto wedi i'r strategaeth derfynol gael ei chyhoeddi. Mae ganddo ddiddordeb yn y realiti o ddarparu gwasanaethau ac mewn ymgysylltu'n ehangach ar y mater hwn gyda'r grŵp trawsbleidiol a phobl y mae dementia'n effeithio arnynt.
- Dywedodd Nigel y dylai'r strategaeth fod yn ddogfen athronyddol, ac na ddylai fod yn rhagnodol o reidrwydd, a'i bod yn bwysig bod yna ddull gweithredu ar sail hawliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ynghyd â sôn am lwybr cenedlaethol. Gofynnodd a ddylid penodi cyfarwyddwr dementia, nid yn statudol, ond yno i yrru pethau ymlaen. Dywedodd Lynne y gallai rhyw fath o tsar fod o fudd i sicrhau nad yw'r strategaeth yn eistedd ar silff. Gofynnodd Allison Hulmes o BASW sut y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yna ymgysylltiad â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ystyried yr anghydraddoldebau enfawr ym maes iechyd. Cytunodd Lynne i fynd ar drywydd hyn gyda Vaughan.
- Gofynnodd Linda Willis a fyddai modd newid y gyfraith i roi'r hawl i bobl gael marw. Nododd Lynne mai cyfrifoldeb San Steffan oedd hyn, nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru.
- Croesawodd Sue Phelps o Gymdeithas Alzheimer Cymru y ffaith y cafwyd cynifer o gyfraniadau gwych. Dywedodd ei bod yn bwysig cefnogi gofalwyr, yn ogystal â chofio bod traean o bobl â dementia yn byw ar eu pen eu hunain, ac y gallai fod lle i eiriolaeth yma. Mae'n bwysig helpu i gadw pobl yn eu cymunedau cyhyd ag y bo modd. Rydym yn cydnabod bod hyn yn bwysig ac mae angen i ni atal gofalwyr rhag blino'n llwyr, ond mae pryderon yn hyn o beth ynghylch meini prawf am bwy sy'n gymwys, a sicrhau nad yw pethau'n codi i'r fath raddau fel nad oes modd i bobl gael mynediad at wasanaethau cyn iddynt flino'n llwyr neu

¹Cymdeithas Alzheimer (2016) [Creu cenhedlaeth sy'n ystyriol o ddementia](#), dyddiad cyrchu 10/02/2017.

fod mewn argyfwng. Rydym yn gwybod nad llawer o arian i'w wario ond mae angen i ni edrych ar y gwariant cyfredol a'r ffordd orau o ddefnyddio'r adnoddau prin sydd gennym. Mae llawer o elfennau da yn y ddogfen ddrafft ac mae'n amlwg y gwrandawyd ar leisiau pobl y mae dementia yn effeithio arnynt.

- Dywedodd Lynne ei bod yn bwysig bod y grŵp trawsbleidiol yn edrych ar y strategaeth hon, fel y mae'r Pwyllgor Iechyd, Chwaraeon, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn ei wneud, ac mai'r gobaith yw y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i bobl bod gwaith craffu manwl yn cael ei wneud.

Camau gweithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf / dyddiad y cyfarfod nesaf

Cam i'w gymryd: Cymdeithas Alzheimer Cymru i ddrafftio a chylchredeg llythyr i bobl roi sylwadau arno. Bydd Lynne Neagle AC yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Iechyd ar ran y grŵp trawsbleidiol.

Cam i'w gymryd: Lynne Neagle AC i ofyn i Vaughan Gething AC ynglŷn ag ymgysylltu â'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

- Dydd Mawrth 13 Mehefin, 12:30pm – lleoliad i'w gadarnhau
- Dydd Mawrth 26 Medi 12:30pm (cyfarfod blynyddol) – lleoliad i'w gadarnhau